

Tir Gofal - Mynediad Addysgol

Nerys Lloyd Mullally

Flynyddoedd yn ôl yr oedd cysylltiadau trigolion Cymru â bywyd y fferm yn llawer agosach. Y dyddiau hyn, oherwydd cynnydd yn y boblogaeth a newid yn ein ffyrdd o fyw, mae rhai Cymry sydd byth yn mynd yn agos at fferm – nid oes angen iddynt. Mae eu holl anghenion ar gael yn yr archfarchnad y dyddiau hyn. Mae'r wybodaeth sydd gan y mwyafrif am fywyd y ffermwr a'i deulu a sut y maent yn byw o ddydd i ddydd yn aml yn ddarlun anghyflawn gyda bylchau mawr ynddo.

Cynllun amaethu amgylcheddol newydd i Gymru gyfan yw Cynllun Tir Gofal. Mae yn cael ei weithredu ar ran y Swyddfa Gymreig gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) mewn partneriaeth â'r Asiantaeth Ffermio a Chadwraeth Wledig (AffChW), ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yng Ngwynedd. Fel rhan o'r cynllun hwn, gall ffermwr gael peth cymorth ariannol i annog plant ysgol, myfyrwyr ac eraill sydd â diddordeb yng nghefn gwlad, natur a byd amaeth i ymweld â'i fferm. Mae'n bwysig i ni wneud defnydd o hyn, a dysgu am bethau newydd fel y dulliau newydd cynaliadwy o ffermio. Hyd yma, mae tua 80 o ffermwyr ledled Cymru wedi dangos diddordeb mewn cynnig ymweliadau addysgol. Byddant yn ysgrifennu at brifathrawon ysgolion yn eu dalgyrch yn ystod tymor yr haf i wahodd yr ysgol i gysylltu a threfnu ymweliad addysgol.

GWYBODAETH I ATHRAWON

A. CYFLEOEDD ADDYSGU

Mae ymweliad â fferm yn rhoi cyfle i addysgu am ystod eang o'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn llawer pwnc er enghraifft:

Gwyddoniaeth CA1 Ymholiad Gwyddonol/ 3 Sgiliau Ymchwilio / Dylid dysgu'r canlynol i'r disgyblion: dod o hyd i wybodaeth 9.

– gwneud cofnod priodol o arsylwadau a mesuriadau.

Addysg Bersonol a Chymdeithasol CA2 Canlyniadau Dysgu/ Gwybodaeth a Dealltwriaeth/Agwedd Amgylcheddol/ Dylai'r disgyblion:

wybod sut y gall gweithgaredd dyn effeithio ar yr amgylchedd.

Daeryddiaeth CA3 3 Themâu \ dylid addysgu'r disgyblion mewn: 4. Ecosystemau

* nodweddion a dosbarthiad un prif fath o lysdyfiant

* beth yw perthynas y math hwn o lysdyfiant â hinsawdd, pridd a gweithgarwch dyn.

Mathemateg CA4 Trin Data / 1 Prosesu a Dehongli Data / Dylid dysgu'r disgyblion 1.

– i ddefnyddio dulliau samplu, gan ystyried pa mor ddibynadwy ydynt.

Cymraeg CA1 Ysgrifennu /1Ystod / Dylid addysgu'r disgyblion i: 5.

- llunio darnau sy'n mynegi barn e.e. ar ôl i'r dosbarth ymweld â swyddfa'r post, ysgrifennu paragraff yn dweud beth roeddent wedi ei hoffi a beth oedd yn gas ganddynt am yr ymweliad (gellir cyfnewid fferm am swyddfa'r post)

B. IECHYD A DIOGELWCH

Dylid glynu'n dynn at y **nifer fwyaf** o ddisgyblion y gellid eu derbyn fel cymhareb disgybl/athro (oedolyn). (Dyfynnir hyn yng ngyhoeddiadau yr Adran Addysg a Chyflogaeth, sef Iechyd a Diogelwch Disgyblion ar Ymweliadau Addysgiadol, Pennod 3 69-72, tud18), sef:

Plant dan 5 oed – dosbarthiadau derbyn: **2 oedolyn (staff addysgu) i bob 8 (wyth) o ddisgyblion**, sy'n rhoi cymhareb uwch – e.e. wrth anwesu anifeiliaid neu fwydo wyn.

Ar gyfer plant rhwng 5 a 7 oed (Blynyddoedd 1 i 3), cymhareb **o 1 (un) oedolyn i bob 6 (chwech) o ddisgyblion**.

Plant rhwng 8 a 11 oed (Blynyddoedd 4 i 6), **1 (un) oedolyn i bob 10 i 15 (deg i bymtheg) o blant**.

Pobl ifanc 12 oed (Blynyddoedd 7) ac uwch, **1 oedolyn i bob 15 i 20 (pymtheg i ugain) o ddisgyblion**.

Bydd darlithwyr coleg a phrifysgol, fel arfer, yn defnyddio'r gymhareb o **1 (un) oedolyn i bob 15 (pymtheg) o fyfyrwr**.

Gweler hefyd:

- i) TWA23 atodiad Osgoi afiechyd mewn ffermydd agored – Cyngor i Athrawon a*
- ii) Canllawiau eich Cyngor Sir ar drefnu ymweliadau.*

GÊM/AU - CYNEFINOEDD AR FFERM

O fewn Cymru, ceir amrywiaeth fawr o wahanol gynefinoedd. Mae'n bwysig fod yr adnodd hwnnw'n cael ei ddiogelu, ond mae yna bris i'w dalu am hynny. Mae angen addysgu cymdeithas i sylweddoli ei wir werth a phennu costau rheolaeth. Dyma rai cynefinoedd nodweddiadol:

Coetir llydanddail

Rhos fynyddig

Prysgdir

Rhos ucheldirol

Tir mawnog asidaidd

Cors heli

Cors borfa arfordirol a glaswelltir mewn gorlifdir

Glaswelltir a chlogwyn arfordirol

Gwelyau brwyn, ffeniau a siglenni

Glaswelltir corsiog

Rhostir iseldirol ac arfordirol

Glaswelltir a gafodd ei drin

Glaswelltiroedd sych heb eu trin – calchfaen, a glaswelltiroedd niwtral ac asidaidd

Bydd angen paratoi yn drylwyr ymlaen llaw, gan egluro, defnyddio geiriadur a dangos lluniau neu sleidiau addas ac efallai drefnu taith neu deithiau pwrpasol.

Casglwch luniau sydd yn enghraifft o'r cynefinoedd uchod, wedyn llungopi'wch ddigon i'r grŵp gweithgaredd neu'r dosbarth i'w ddefnyddio. Byddant yn para yn well wedi eu gludo ar garbwrdd. Hefyd bydd angen defnyddio'r cyfrifiadur a "font" tua maint 24 i wneud labeli (eto i'w gludo ar garbwrdd). Wedyn gellir eu defnyddio i chwarae gêm e.e.

i) snap

ii) dau dîm yn cael eu hamseru – y tîm cyntaf i gyfosod y labeli a'r lluniau sy'n cyfateb yn gywir ochr yn ochr ar y bwrdd sy'n ennill.

Tir Gofal Rhan II. GWAITH YMCHWIL I BLANT

WYDDOCH CHI?

Flynyddoedd yn ôl, roedd llawer mwy o drigolion Cymru yn byw yn agos at fferm. Erbyn heddiw, mae llawer o bobl sydd byth yn mynd yn agos at fferm, dim ond gweld caeau wrth edrych allan o'r car. Does dim rheswm iddyn nhw fynd – mae eu bwyd i gyd yn dod oddi ar silffoedd Tesco neu Asda. Felly, dim ond ychydig iawn mae'r bobl hyn yn ei wybod am fywyd bob dydd y ffermwr a'i deulu.



Cynllun amgylcheddol newydd i ffermydd Cymru gyfan yw Cynllun Tir Gofal. Mae'r ffermwyr sydd yn croesawu plant ysgol, myfyrwyr a phobl eraill sy'n cymryd diddordeb yng nghefn gwlad yn gallu cael cymorth ariannol. Mae'n bwysig i ni gymryd y cyfle i ddysgu am bethau newydd fel y dulliau diweddaraf o ffermio cynaliadwy.



Hyd yma, mae tua 80 o ffermwyr ledled Cymru wedi dangos diddordeb mewn gwahodd ysgolion i ymweld â'r fferm, ac chyn hir fe fyddan nhw'n ysgrifennu at brifathrawon yr ardal i gynnig cyfle iddyn nhw ddod â'u disgyblion yno.



1. A wyddoch chi tua faint o wyau mae un iar yn eu dodwy mewn blwyddyn?
2. Yn ystod pa fis, fel arfer, y bydd ffermwr yn torri silwair?
3. Beth, fel rheol, yw pwysau cnu gwlan un ddafad fynydd Gymreig?
4. Pam mae ffermwr yn llosgi grug y mynydd?
5. Tua faint o berchyll (moch bach) sydd yn cael eu geni ar y tro?
6. Pa ran o'r planhigyn yw'r tatws - gwreiddyn, coes neu ddeilen chwyddedig?
7. Sawl litr o laeth / lefrith bydd buwch (Friesian) yn ei gynhyrchu mewn :i) un diwrnod? ii) blwyddyn?
8. Am ba hyd bydd dafad yn feichiog?
9. Barlys, haidd neu wenith sydd yn cael ei ddefnyddio i wneud i) bara? ii) cwrw?
10. Beth ydy ystyr **arall-gyfeirio**?

Gweler yr atebion ar y dudalen nesaf



Atebion

1. Rhwng 200-300 o wyau.
2. Rhwng Mai-Awst (yn dibynnu ar uchder y tir.
Bydd yn cael ei dorri'n hwyrach po uchaf yw'r tir.)
3. Tua 3-5 pwys/1-2kg
4. I gael gwared o'r hen dyfiant er mwyn i'r grug gynhyrchu tyfiant newydd ifanc i sicrhau bwyd i ddefaid a grugieir.
5. Fel arfer rhwng 6-14 o berchyll.
6. Coes, oherwydd mae blagur / egin arno er ei fod yn y pridd.
7. Tua i) 16 litr y dydd a ii) 6,000 litr y flwyddyn.
8. Pum (5) mis.
9. i) gwenith ii) barlys.
10. Newid a datblygiad yn y ffordd arferol o amaethu e.e. gwely a brechwast; amaethyddiaeth amgylcheddol; ffermio brithyll.

